# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 14 Medi 2022 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 15 Medi 2022 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 23 Medi 2022 |

---

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**
Y Cynghorydd Craig ab Iago
Aelod Cabinet Tai ac Eiddo

---

**PWNC – Gwaredu diddordeb y Cyngor yn siop 5 Stryd y Bont Caernarfon**

---

**PENDERFYNIAD**

Gwaredu diddordeb y Cyngor yn y siop a adnabyddir fel 5 Stryd y Bont Caernarfon yn uniongyrchol i drydydd parti ar delerau ac amodau i'w pennu gan y Pennaeth Tai ac Eiddo.

---

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD**
Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**
Dim

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**
Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig.

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet : | Cynghorydd Craig ab Iago |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Daniel Lewis<br>Uwch Syrfewr Stadau |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad: | 14 Medi 2022 |
| Llofnod yr Aelod/au Cabinet : |  |

**Pwnc :** Gwaredu diddordeb y Cyngor yn siop 5 Stryd y Bont Caernarfon

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :**

Gwaredu diddordeb y Cyngor yn y siop a adnabyddir fel 5 Stryd y Bont Caernarfon yn uniongyrchol i drydydd parti ar delerau ac amodau i'w pennu gan y Pennaeth Tai ac Eiddo.

**Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad :**

Galluogi'r Cyngor i waredu ar eu diddordeb mewn eiddo sydd yn weddill i anghenion y Cyngor ar gyfer darparu gwasanaethau

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad :**

Fel rhan o'r Strategaeth Asedau Corfforaethol a fabwysiadwyd ym mis Hydref 2009, adnabyddwyd Siopau 5, 7 a 9 Stryd y Bont fel adeiladau i'w gwaredu a hynny gan nad oedd gan y siopau ddefnydd o ran darparu gwasanaethau. Ar y pryd, roedd y siopau wedi eu gosod ar brydles i berhchenog busnes gan ddarparu incwm rhent i'r Cyngor. Mae'r cyn denant bellach wedi ildio ei brydlesi o'r dair uned.

Mae siopau rhif 7 a 9 yn adeilad sy'n sefyll ar ei ben ei hun, a felly gellir symud ymlaen i werthu yn unol a'r awdurodd a roed yn y Strategaeth Asedau Corfforaethol.

Fodd bynnag, mae siop rhif 5 wedi ei uno gyda siop rhif 3, heb wal i'w gwahanu. Yn ychwanegol at hynny nid oes gwasanaethau arwahan ar gyfer y ddwy siop, ac yn unol a'r cyn brydles cyfrifoldeb y Cyngor yw adfer y wal rhwng y ddwy uned ar derbyn y denantiaeth.

Mae cais wedi ei dderbyn gan berchenog siop rhif 3 i brynu siop rhif 5 gan y Cyngor. Byddai cymeradwyo'r penderfyniad a geisir i werthu yn uniongyrchol i berchennog rhif 3 yn golygu fod y Cyngor yn hepgor y costau nid ansylweddol fyddai'n gysylltiedig a gwahanu'r ddwy uned a'r cyflenwadau cysylltiedig, ac o ystyried y farchnad a chyflwr yr adeilad ni rhagwelir y byddai'r Cyngor yn adenill y costau yma.

Byddai cymeradwyo'r argymhelliad a gwaredu'r eiddo yn uniongyrchol i berchenog siop rhif 3 yn galluogi'r Cyngor i symud ymlaen heb oedi i waredu'r eiddo ac osgoi costau di-angen mewn cyswllt a chynnal a diogelu'r eiddo.

Nid oes unrhyw fwriad i dderbyn llai na gwerth y farchnad am yr eiddo.

**Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau :**


Dim.

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :**

**Prif Swyddog Cyllid** – Mae'r penderfyniad a geisir yn rhesymol o dan yr amgylchiadau presennol. Felly, nid oes gennyf wrthwynebiad o safbwynt priodoldeb ariannol

**Swyddog Monitro** – Rwy'n fodlon a'r argymhelliad sydd yn cynnig ffordd resymegol o waredu'r eiddo penodol yma.

**Aelod/au Lleol** - Cynghorydd Olaf Cai Larsen – Dim Gwrthwynebiad




25 12.5 0 25 Meters

# 5 Bridge Street Caernarfon

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2020 Arolwg Ordnans 100023387 - Cyngor Gwynedd